

2 IAITH...

!?



MAE RHAN FWYA' O BOBL Y BYD
YN DEFNYDDIO O LEIA' 2 IAITH
YN ELI BYWYD POB DYDD.
BE' YDY MANTEISION
2IEITHRWYDD? ...

• CAEL GWAITH

Mae 2ieithrwydd yn gwella dy gyfle i gael gwaith ac yn agor mwy o ddrysau.

• GWASANAETH CWSMER

Mae pobl yn gwerthfawrogi cael cynnig dewis 2 iaith.

• ENNILL ARIAN

Mae pobl 2ieithog yng Nghymru yn ennill rhwng 8% -10% yn fwy o gyflog bob blwyddyn o'i gymharu efo pobl sy'n siarad un iaith yn unig. Mae mwy a mwy o angen pobl 2ieithog mewn llawer o feysydd gwaith.

• ADDYSG

Mae ymchwil yn cadarnhau bod pobl 2ieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus yn yr ysgol a'r coleg, ac yn fwy tebygol o allu dysgu iaith arall.

• GALLU

Mae pobl 2ieithog yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg ac yn tueddu i fod yn fwy meddylgar. Maent hefyd yn gallu canolbwyntio ar nifer o dasgau ar un pryd.

• CYMDEITHASOL

Mae siarad 2 iaith yn agor drws i fywyd cymdeithasol llawer mwy amrywiol: 2 iaith 2waith y dewis!

• DIWYLLIANNOL

Mae 2ieithrwydd yn agor drysau i 2 ddiwylliant gwahanol. O hanes i fiwsig, o lyfrau i fyd teledu, mae gan bobl 2ieithog fwy o ddewis: 2 fyd iaith, 2 ffenest ar y byd.

• DATBLYGU CYMERIAD

Mae gallu siarad 2 iaith yn tueddu i godi hunan-hyder a hunan-barch yr unigolyn; ac mae pobl 2ieithog yn fwy tebygol o wybod am eu hanes a'u cefndir.

• IECHYD

Mae ymchwil yn dangos bod 2ieithrwydd yn arafu dementia a symptomau eraill Alzheimer.

